Polisi Diogelwch Gwybodaeth ar gyfer y Gynghrair Ansawdd Sgiliau (QSA)

Cwmpas a Diben y Polisi

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn dysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Diben y polisi hwn yw sicrhau diogelwch holl Systemau Gwybodaeth Dysgu'n Seiliedig ar Waith Coleg Caerdydd a'r Fro (WBL CAVC), Asedau Contract a data cwsmeriaid, a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â dwyn, colli, camddefnyddio, niweidio neu gam-drin y systemau a'r asedau hyn.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff a thrydydd parti sy'n defnyddio gwybodaeth a gedwir gan WBL CAVC, a'r systemau gwybodaeth a ddefnyddir i gadw a phrosesu'r wybodaeth, a bydd yn cael ei gyfathrebu iddynt.

Datganiad Polisi

Drwy ddarparu'r gwasanaethau hyn, bydd WBL CAVC yn ymgysylltu gydag amrywiaeth o asedau gwybodaeth, gyda lefelau amrywiol o gyfrinachedd. Yn ogystal, bydd gofyn iddynt gydymffurfio â deddfwriaeth statudol a rheoleiddiol, a gofynion perthnasol eraill maent yn tanysgrifio iddynt (cyfamodol a gwirfoddol). Bydd WBL CAVC yn:

- Darparu amgylchedd gweithio ar systemau diogel i staff, myfyrwyr ac unrhyw ddefnyddiwr awdurdodedig arall.

- Sicrhau bod holl ddefnyddwyr awdurdodedig WBL CAVC yn deall, ac yn cydymffurfio gyda'r polisi hwn, ac unrhyw bolisïau cysylltiedig eraill.

- Sicrhau bod yr holl ddefnyddwyr yn deall eu cyfrifoldebau personol o ran diogelu cyfrinachedd a chyfanrwydd y data y maent yn ymdrin ag ef.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	11/20
Dyddiad Adolygu Nesaf	11/22

- Diogelu WBL CAVC, ei bartneriaid a'r Contract rhag atebolrwydd neu niwed drwy gamddefnyddio ei gyfleusterau TG.

- Ymateb i adborth a diweddariadau fel sy'n briodol, a chychwyn cylch o welliannau parhaus.

- Darparu'r un sicrwydd bod gwybodaeth yn cael ei 'thrin' yn briodol i bartïon sy'n dangos diddordeb.

- Gweithredu System Reoli Diogelwch Gwybodaeth (ISMS) effeithiol, sy'n cydymffurfio ag ISO 27001:2013.

- Sicrhau bod yr ISMS yn gallu rheoli'r Asedau gwybodaeth sy'n sicrhau cyfrinachedd a chyfanrwydd y wybodaeth, a'i bod hi ar gael i unigolion.

- Parhau i wella eu ISMS drwy nifer o Amcanion Diogelwch Gwybodaeth. Byddant yn cael eu hadnabod drwy fonitro perfformiad yr ISMS.

- Adolygu allbynnau Asesiadau Risg a Chyfleoedd rheolaidd, mewn cydymffurfiaeth a pharïon eraill sy'n dangos diddordeb.

- Glynu wrth, a dilyn deddfwriaethau cyfredol y DU a'r UE, yn ogystal ag amrywiaeth o ofynion amodol a rheoleiddiol.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Polisi Diogelu Gwybodaeth a gweithdrefnau'r Coleg yn cael eu gweithredu'n llawn a bod staff yn glynu wrthynt.
- Adnoddau digonol yn cael eu neilltuo i'r maes hwn.

Bydd yr Uwch Grŵp Cynllunio yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r broses o gymhwyso'r gweithdrefnau, cefnogi staff i lynu wrth y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. derbyniadau, tiwtorial etc. yn ymgorffori gweithdrefnau diogelwch TG.

Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg yn gyfrifol am:

- Gynnal pa mor gyfredol yw'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo i fodloni gofynion y polisi a

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r Deon Gwella Ansawdd yn gyfrifol am:

- Ddarparu hyfforddiant a datblygiad priodol.
- Cymryd camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Drin yr holl ddysgwyr gydag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth na drwgdeimlad.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a gweithio mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'w cynnwys.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a GDPR.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni.
- Mynychu digwyddiadau CPD ynghylch agweddau sy'n berthnasol i lwyddiant y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiynau sefydlu a thiwtorial i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r cyfleoedd sy'n codi ohono.
- Dilyn gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r polisi hwn; yn enwedig pryderon ynghylch adrodd.
- Rhoi adborth ar y polisi mewn grwpiau ffocws dysgwyr a thrwy gyfleoedd eraill.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2016
- Deddf Ddifenwi 2013
- Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959
- Deddf Diogelu Plant 1978
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003
- Deddf Economi Ddigidol 2017
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018
- Deddf y Coronafeirws 2020 Cymru 2020

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, a gellir dod o hyd i grynodeb o'r ddeddfwriaeth, rhwymedigaethau rheoleiddiol ac amodol yn y Weithdrefn Diogelu Gwybodaeth (ISMS01)

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y polisi hwn.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Rhaid ystyried deddfwriaethau iechyd a diogelwch mewn perthynas â Datgelu, gan fod angen i ni sicrhau diogelwch staff a myfyrwyr.

Safonau'r Gymraeg

Nid yw'r polisi hwn yn effeithio'n negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Polisïau Cysylltiedig

Llawlyfr System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth (ISMS00)

Gweithdrefnau Cysylltiedig

Gweithdrefn Diogelwch Gwybodaeth	ISMS01
Gweithdrefn Rheoli Mynediad	ISMS02
Gweithdrefn meddalwedd gwrth-firws	ISMS03
Gweithdrefn Rheoli Cymwysiadau	ISMS04
Gweithdrefn Digomisiynu	ISMS05
Gweithdrefn Desg Glir	ISMS06
Gweithdrefn Rheoli Dogfennau	ISMS07
Gweithdrefn Gweithio o Bell	ISMS08
Gweithdrefn Cryptograffeg	ISMS09
Gweithdrefn Monitro a Chofnodi	ISMS10
Gweithdrefn Amodau Cyfrif Defnyddiwr	ISMS11
Gweithdrefn Parodrwydd Fforensig CAVC	ISMS12
Gweithdrefn Archwilio'r Systemau Rheoli	ISMS13
Gweithdrefn Diogelwch Ffisegol	ISMS19
Dosbarthu Dogfennau	ISMS20
Gweithdrefn Defnydd Derbyniol	ISMS21

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Lleoliad a Mynediad at y Polisi

Mae hwn ar gael ar yriant y rhwydwaith Dysgu'n Seiliedig ar Waith, ac efallai na fydd yn ddilys os caiff ei argraffu.

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	11/20
Dyddiad Adolygu Nesaf	11/22

NODER: Mae copi o'r polisi ISMS yn cael ei arddangos yn safle dysgu'n seiliedig ar waith Y Barri.

Dyddiad cymeradwyo: Ionawr 2017	**Rheolwr Atebol: Cyfarwyddwr ITIS**
Cymeradwywyd gan: CQSA	**Arweinydd Gweithredol: Y Prif Swyddog Gweithredu**
Dyddiad adolygu: Tachwedd 2022	**Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy**

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	11/20
Dyddiad Adolygu Nesaf	11/22